# Tîm Datblyg
# Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Newyddlen Sir y Fflint

Hydref 2025

## Croeso i newyddlen Hydref 2025 Tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Cyfalaf a Phartneriaethau.

Gwasanaeth Blynynddoedd Cynnar a'r Teulu
Early Years and Family Service
*I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd*
*For ALL children to have the best start in life*

Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu gwybodaeth bwysig ynglŷn â sefydlu darparwr gofal plant newydd yn Sir y Fflint, **Tiny Turrets. Hefyd hyfforddiant ELKLAN, ein grŵp Gwarchodwyr Plant yr Haf a llawer iawn mwy!**

## Diolch am Roi Gwybod Inni

Rydym yn cydnabod pa mor brysur ydych chi o ddydd i ddydd ac yn gwerthfawrogi'r amser rydych chi'n ei gymryd i gwblhau arolygon a holiaduron a anfonir atoch.

Drwy ddarparu'r wybodaeth hon, rydych chi'n sicrhau y gall Sir y Fflint flaenoriaethu gofynion y gweithlu, aros yn gyfredol â manylion cyswllt brys a rhannu'r newyddion, cyfleoedd a'r gefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

## Diolch am roi cynnig ar ein cystadleuaeth!

**Diolch o galon i bawb am roi cynnig ar ein cystadleuaeth ddiweddaraf ar Facebook!**




**Mae'n bleser gennym gyhoeddi mai Highway Playdays a fu'n ffodus o ennill y blociau mawr - llongyfarchiadau!**

Os nad ydych chi wedi ymuno â'n grŵp Facebook ni eto, mae'n amser delfrydol ichi wneud. Dyma'r lle gorau i gael yr holl newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddiant a chystadlaethau eraill yn y dyfodol.

Peidiwch â cholli'ch cyfle – ymunwch rŵan!



Grŵp Facebook
CLICIWCH YMA

Gwasanaeth Blynynddoedd Cynnar a'r Teulu
Early Years and Family Service
*I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd*
*For ALL children to have the best start in life*

DATBLYGIAD GOFAL PLANT
CHILDCARE DEVELOPMENT
SIR Y FFLINT • FLINTSHIRE

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

# Cefnogi Cyfathrebu Plant

**Mae Tîm Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar yn cynnig hyfforddiant ELKLAN dan 3 oed y tymor hwn. Mae Cefnogaeth Iaith a Lleferydd ELKLAN ar gyfer plant 0-3 oed yn gwrs hyfforddiant ymarferol ar gyfer y sawl sy’n gweithio gyda phlant, gan eich darparu gyda:**

- Cyfoeth o wybodaeth a chyfle i rannu profiadau gydag ymarferwyr eraill sy’n gweithio gyda phlant o’r un oedran
- Cyngor ymarferol a strategaethau i gefnogi plant, rhieni a theuluoedd yr ydych yn gweithio gyda hwy
- Eich llyfr ‘Language Builders Book’ ar gyfer plant 0-3 oed, fel adnodd ymarferol sy’n cynnwys llwyth o awgrymiadau defnyddiol, syniadau a strategaethau
- Os ydych yn dymuno, bydd cyfle i chi gofrestru gyda Rhwydwaith Prifysgol Agored Llundain, a chyflawni achrediad Lefel 2 neu 3



Elklan
Training to Support Children’s
Language and Learning

Rydym yn awyddus i gefnogi staff o leoliadau darparwyr gofal plant i gael mynediad i hyfforddiant ELKLAN, ond mae nifer cyfyngedig o leoedd, sef 20, ac mae’r cwrs yn boblogaidd.  Os oes gennych ddiddordeb yn hyn, siaradwch ag Emma neu Fiona, a gallwch ychwanegu eich enw i restr aros a byddwn yn rhoi diweddariad i chi gyda dyddiadau yn y dyfodol.

## Ein Taith gydag ELKLAN

Yn y misoedd diwethaf, cafodd Fiona ac Emma, y Swyddogion Datblygu Gofal Plant, gyfle i gymryd rhan yn y cwrs ELKLAN gydag ymarferwyr eraill sy’n gweithio i ddarparwyr ledled y sir.

Roedd y cwrs yn cynwys deg o sesiynau rhyngweithiol dan arweiniad Tîm Cynghorol Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint. Ymhob sesiwn, darparwyd cyfoeth o gyngor a strategaethau a chafwyd llawer o sgyrsiau pwrpasol i annog a hybu sgiliau cyfathrebu babanod a phlant bach.

Rhoddwyd sylw i themâu fel:

- Cyfathrebu
- Rhyngweithio rhwng Plant ac Oedolion
- Cyfathrebu Dieiriau
- Datblygu Gweithgareddau Chwarae er budd Iaith
- Mor Bwysig yw Gwrando
- Cynllun Iaith Blank
- Rhannu Llyfrau, Rhigymau a Chaneuon
- Gweithio gyda Rhieni a Gofalwyr

## Pam fod ELKLAN yn Bwysig

Ar ôl gwneud yr hyfforddiant rydym wir yn gwerthfawrogi mor bwysig yw bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant i gefnogi gyda chyfathrebu a datblygiad iaith. Y sgiliau cyfathrebu cynnar yma sy'n gosod y sylfeini ar gyfer dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a lles emosiynol.

Mae'r cwrs ELKLAN yn ymarferol, yn ddifyr ac wedi'i addasu yn ôl anghenion gweithwyr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Mae ymarferwyr yn cael strategaethau go iawn y gallant eu defnyddio bob dydd wrth sicrhau fod babanod a phlant bach yn cael y dechrau gorau posib.

Rydym yn annog pob darparwr gofal plant i ystyried anfon ymarferwyr ar y cwrs. Bydd y wybodaeth a'r sgiliau'n hybu addysg a datblygiad y plant am flynyddoedd i ddod.

### Ydych chi'n awyddus i gael hyfforddiant ELKLAN i'ch staff?

Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth: Claire.Dodd@flintshire.gov.uk

Elklan
Training to Support Children's Language and Learning

# Grŵp Chwarae Tiny Turrets, Y Fflint

**Ym mis Medi cychwynnodd grŵp chwarae Tiny Turrets, darparwr sydd wedi cofrestru â Chyngor Sir y Fflint ar gyfer Dechrau'n Deg y Cynnig Gofal Plant a gofal plant am dâl.**



Bu'r Tîm Gofal Plant a Dechrau'n Deg yn gweithio gydol yr haf i greu lle croesawgar i rieni a phlant a pharatoi ar gyfer cofrestru ac agor y drysau. Defnyddiwyd grant cyfalaf bach gan Lywodraeth Cymru i osod cegin newydd, rhoi côt newydd o baent a gosod lloriau newydd. Cynhelir y grŵp chwarae yng Nghanolfan y Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd yn Y Fflint (wrth ymyl Ysgol Gwynedd) ac mae lle i 21 o blant.



Mae'r tîm gofal plant yn estyn croeso cynnes i'r holl rieni a gofalwyr i Tiny Turrets, lle'r ydym yn ymrwymo i ddarparu lle cefnogol, diogel a difyr i blant bach ddysgu, chwarae a thyfu. Edrychwn ymlaen at ffurfio perthynas gref â theuluoedd a chefnogi pob plentyn ar eu taith yn y blynyddoedd cynnar.



***Pob lwc i'r tîm!***





# Hwyl, Fforio a'r Addewid yng Nghymru

## Uchafbwyntiau Grŵp Gwarchodwyr Plant mis Awst

**Roedd sesiwn haf y Grŵp Gwarchodwyr Plant yn gymysgedd hyfryd o chwarae, archwilio a dysgu.**



Ich o galon i'r holl warchodwyr a'u plant am gymryd rhan - bu'n fore llwyddiannus dros ben diolch i'ch brwdfrydedd a'ch cyfraniad chi!



Mwynhaodd y plant amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys chwarae â swigod a rholio i lawr y llethrau drwy dwneli. Daeth y sesiwn i ben drwy fentro allan i fforio - hel eirin ac afalau coginio o'r coed. Wrth gwrs, bu'n rhaid blasu rhywfaint o'r cnwd wrth ei gasglu!



Aeth y plant â'r ffrwythau â nhw i wneud crymbl afalau blasus gyda'u gwarchodwyr!



Cafwyd bore llawn o hwyl, creu cysylltiadau a rhannu syniadau.



Yn ogystal â'r gweithgareddau, trafodwyd Prosiect Clebran Cymraeg, sy'n anelu at ddarparu cefnogaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eich lleoliad.



Roedd yn fore llawn hwyl, cysylltiad a syniadau a rennir - rydym yn edrych ymlaen at weld pawb eto yn ein sesiwn nesaf.

# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Llywio Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau i'r Dyfodol

**Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn ar y canlynol:

- **Diweddariadau arfaethedig i'r amgylchiadau lle mae gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd i blant rhwng 0 a 12 oed wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru**
- **Datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer darparwyr nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru**
- **Effaith ehangach y newidiadau hyn, gan gynnwys ar y Gymraeg**

Rydym yn annog pawb sydd â diddordeb mewn gofal plant, gwaith chwarae neu weithgareddau plant i rannu eu barn a rhannu'r ddolen ymgynghori ar draws eu rhwydweithiau. Hoffem glywed yn arbennig farn y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, gan gynnwys plant, rhieni, a'r sectorau cofrestredig ac anghofrestredig.

- **Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 3 Tachwedd 2025.**

Am ymgynghoriad - **Cliciwch** os gwelwch yn dda YMA

# Ydych chi wedi ymweld â'n tudalen Facebook Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint?

Cliciwch yma i ddilyn ni.

Mae ein tîm wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein tudalen cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell wych o wybodaeth i deuluoedd a allai fod yn chwilio am ddiweddariadau pwysig, gwybodaeth am reoliadau ysgolion a gofal plant, digwyddiadau lleol, gweithgareddau, grwpiau a chyrsiau i fynychu.




Yn ystod mis Gorffennaf cawsom dros 118,000 o ymweliadau â'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol - i fyny o 83,000 ym mis Mehefin a thros 60,000 ym mis Mai!

Rydym wrth ein bodd bod y dudalen cyfryngau cymdeithasol hon yn dod yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy yn gyflym.

Ffon: **(01352) 703500** E-bost: fisf@flintshire.gov.uk

## Grant Cyfalaf Bach

**Rydym wrth ein bodd yn rhannu bod 71 o leoliadau ledled y sir wedi gwneud cais am Grant Cyfalaf Bach eleni.**

I'r rhai sydd wedi bod yn llwyddiannus, bydd cam nesaf y broses yn cynnwys ymweliad monitro, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymweliadau hyn yn digwydd ledled y sir i arsylwi'r ystod wych o waith a phrosiectau sy'n cael eu cyflwyno i wella ansawdd y ddarpariaeth a chreu cyfleoedd newydd i'r plant yn eich gofal.

Er mai mis Rhagfyr oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, nid ydym bellach yn derbyn ceisiadau newydd gan fod yr holl gyllid bellach wedi'i ddyrannu.

## Cynnig Gofal Plant Cymru

**Agorodd ceisiadau ar gyfer tymor mis Medi ar 18 Mehefin 2025.**



Nodyn atgoffa y bydd dyddiadau cymhwysedd o fis Medi 2025 ymlaen yn symud i ddyddiadau torri sefydlog:

- **31 Rhagfyr 2025**
- **31 Mawrth 2026**
- **31 Awst 2026**



## Dechrau'n Deg

**wynodd Dechrau'n Deg Gam 3 o ardaloedd ehangu gofal plant 2 oed ar 28 Ebrill.**

Mae rhestr lawn o ardaloedd ehangu ar gael ar ein gwefan: Ehangu Dechrau'n Deg

Os nad ydych chi'n ddarparwr Dechrau'n Deg eto ond yn ystyried dod yn un, anfonwch e-bost at flyingstartproviders@flintshire.gov.uk i wneud ymholiadau.

# Y wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaid CWLWM

coram pacey

## Helpu i lunio dyfodol gofal plant

Mae Coram PACEY yn awyddus i roi'r cyfle I bob gwarchodwr plant drafod Cynigion Llywodraeth Cymru i newid elfennau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gallwch hefyd gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar ran eich lleoliad yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

**Dysgu mwy**

Gyda newyddion am Gwneud Treth yn Ddigidol, rydym yn gweithio'n agos gyda CThEM. Os oes gennych ymholiad penodol neu gwestiynau penodol, rhowch wybod i ni! Gweler hefyd ein Blog diweddar: Derbynebau digidol - **Beth ydyn nhw a pham ddylech chi wneud y newid?**

Rydym hefyd yn falch iawn o gyflwyno 4 Cydlynydd Datblygu newydd i dîm Coram PACEY Cymru. Mae Adil, Alaw, Sian a Wayne yn dod ag amrywiaeth eang o brofiad ac maent yma i'ch helpu gydag ymholiadau mewn perthynas â'ch gwasanaeth gwarchod plant. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

### Ydych chi'n meddwl cael cymhwyster Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae

Mae hwn yn gwrs gwych rhagarweiniol i Waith Chwarae, mae'n cynnwys cymysgedd da o wybodaeth ymarferol a damcaniaeth. Nid oes gofynion mynediad i ymrestru cyhyd â'ch bod dros 16 mlwydd oed.

Mae'r cwrs hwn yn arbennig o fuddiol i'r rhai sy'n gweithio mewn clybiau Gwyliau gan y bydd yn eich cymhwyso ar Lefel 2. Os byddwch yn gweithio mewn unrhyw leoliad Gwaith Chwarae arall bydd angen i chi symud ymlaen i wneud y Dystysgrif Lefel 2 i gael eich cyfrif yn aelod cymwysedig o'r tîm.

Mynegiant o Ddiddordeb

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Mae'r hydref yn amser gwych ar gyfer hyfforddiant a DPP gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru:

**Gall aelodau hefyd gael mynediad at ein Dosbarthiadau Meistr newydd (Mae prisiau'n amrywio).**

Ar ôl eu prynu, gallwch eu hanfon atoch i'w cwblhau yn eich amser eich hun. Mae ein Dosbarthiadau Meistr (dolen allanol) yn sesiynau byr, wedi'u recordio ymlaen llaw (30-45 munud) sy'n cynnig dysgu byr, effaith uchel sy'n cyfuno mewnbwn arbenigol, enghreifftiau o'r byd go iawn, a gweithgareddau myfyriol, pob un yn werth 2 bwynt DPP ac yn cynnwys tystysgrif, gyda thasgau dewisol i ddyfnhau dysgu.

Mae'r teitlau'n cynnwys:

**Thrive:**
Cyfres Llesiant a Maeth i Ymarferwyr.

**Terrific Twos to Fantastic Fours:**
Canllaw Cyflawn i Ddatblygiad Plentyndod Cynnar (wedi'i rannu'n ddau, tri a phedwar).

**Foundations in Motion:**
Reflexes, senses and early development.

**Dychmygwch y Posibiliadau:**
Dysgu Gweledol yn y Blynyddoedd Cynnar.

**Opsiynnau talu -**
Archebwch ymlaen llaw nawr ar gyfer rhyddhad ym mis Hydref:

**Dosbarth unigol** - Click here to purchase

**Set lawn** - Click here to purchase

**Cymysgu a chyfateb (pump)** - Click here to purchase

AWGRYM GWYCH!

## Ydi'ch gwasanaeth chi'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru?

**GALLWCH** newid y datganiad ar eich adroddiad arolygu gan AGC:

**O** - *'Nid yw'r darparwr yn bodloni anghenion pobl o safbwynt y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae angen gwella hynny'.*

**I** - ***'Mae'r gwasanaeth yn gweithio at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' yn Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog, neu'n dangos cryn ymdrech i annog defnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru'.***

Cliciwch ar y ddolen isod i gael gwybod mwy am y Cynnig Rhagweithiol:

Pecyn Gwybodaeth y Cynnig Rhagweithiol

Mae gwasanaeth Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint a'r sefydliad sy'n eich cynrychioli'n awyddus i'ch cynorthwyo drwy'r broses.

Cysylltwch â ni drwy e-bost - ccdtraining@flintshire.gov.uk os oes arnoch angen unrhyw gymorth neu gyngor.

## Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd – Cefnogaeth ar yr Adeg Iawn

**Oes gennych chi bryderon am blentyn ynglŷn â lleferydd, iaith neu sgiliau cyfathrebu?**

**Mae'r Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd ar gael i helpu.**

Bydd Therapydd Iaith a Lleferydd cymwys ar ben arall y ffôn i roi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn ag unrhyw bryderon.

Oriau'r Llinell Gymorth:

- **Dydd Mawrth: 9:00-10:00am**
- **Dydd Iau: 3:30-4:30pm**

Ffoniwch: **03000 848 179**

Mae'r llinell gymorth ar agor bob wythnos, gan gynnwys gwyliau ysgol, ac felly bydd cefnogaeth bob amser ar gael pan fydd ei hangen arnoch.

Darperir y gwasanaeth i'r **HOLL** ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint yn ogystal â rhieni a gofalwyr.



**Wrth inni groesawu'r hydref, mae'n hyfryd gweld y byd o'n cwmpas yn fôr o liwiau - dail yn crensian, concyrs i'w casglu a phwmpenni rif y gwlith - mae'n dymor delfrydol i chwarae, bod yn chwilfrydig a darganfod pethau newydd.**

Diolch am bopeth rydych yn ei wneud i gefnogi ac ysbrydoli'r plant rydych yn gofalu amdanynt.

Dymunwn hydref hapus a braf ichi, yn llawn o hwyl ac anturiaethau newydd!